**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: MA/RE/3374/22

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

SeneddClimate@senedd.wales

10 Tachwedd 2022

Annwyl Llyr,

Diolch am eich adroddiad ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud wrth graffu ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil hwn, a sylwaf ein bod yn rhannu nifer o'r un pryderon.

Rwy'n cytuno â'r Pwyllgor y gallai'r Banc chwarae rhan bwysig wrth gynyddu a chyflymu buddsoddiad i gefnogi'r broses o drosglwyddo Cymru i sero net. Felly, rydym wedi bod wrthi'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau synhwyrol i'r Bil er mwyn sicrhau bod datganoli yn cael ei barchu.

Mae'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd cymalau 2 (Amcanion a gweithgareddau) a 3 (Blaenoriaethau a chynlluniau strategol) o'r Bil, a mae'n nodi nad oes rôl, ar hyn o bryd, i Lywodraeth Cymru na'r Senedd. Rydym yn rhannu'r pryder hyn ac rydym yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar welliannau i fynd i'r afael â hyn.

Yn fwy cyffredinol, rydym hefyd yn rhannu eich pryder ynghylch y ffaith nad oes rôl i Lywodraeth Cymru yn nhrefniadau llywodraethu'r Banc ac rydym yn ceisio mynd i'r afael â hyn gyda Llywodraeth y DU drwy welliannau penodol i'r Bil.

Fel y Pwyllgor, roeddem yn falch o weld bod gwelliant yn Nhŷ'r Arglwyddi i ehangu'r diffiniad o seilwaith i gynnwys "atebion ar sail natur" er mwyn osgoi unrhyw amwysedd wrth dderbyn cynigion o'r fath i'r Banc. Rydym yn cefnogi cadw'r gwelliant hwn wrth i'r Bil fynd drwy Dŷ'r Cyffredin.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae ansefydlogrwydd sylweddol wedi bod yn San Steffan sydd wedi arwain at nifer mawr o newidiadau i Weinidogion Trysorlys Ei Fawrhydi ac mae hynny wedi llesteirio'r cynnydd a wnawn wrth drafod unrhyw gytundeb posibl. Bu oedi hefyd i daith y Bil drwy Dŷ'r Cyffredin oherwydd y newidiadau i gyfrifoldebau Gweinidogol y DU, a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

chyhoeddiadau eraill fel Cynllun Twf 2022. Rwy’n deall y bydd y Bil yn awr yn symud ymlaen i’r Cyfnod Pwyllgor ar 22 Tachwedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac i geisio gwelliannau priodol sy’n parchu datganoli.

Gan fod trafodaethau’n parhau, yn anffodus ni allaf fod yn fwy penodol am union natur y gwelliannau hyd nes y gwneir cynnydd pellach. Fodd bynnag, bydd unrhyw gytundeb yn arwain at Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall a chyfle i’r Pwyllgor adrodd ymhellach ar y mater.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government